

DOLEN Y TAB 99

25–26 Mawrth 2022

Bore Sul 27 Mawrth am 11

Oedfa yng nghwmni'r Parchedig Gethin Rhys a Huw Roberts.

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwylio recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Ebrill

- 3 Oedfa Deuluol gyda phlant yr Ysgol Sul
- 10 Sul y Blodau yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards
- 17 Sul y Pasg gyda'r Parchedig Eirian Rees
- 24 Allan James

Mai

- 1 Ann ac Emlyn Davies
- 8 Y Parchedig Aled Edwards

Hefyd ddydd Sul 27 Mawrth

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth Sul y Mamau yng ngofal Laura Karadog, Pontyberem.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30–20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Sul y Mamau. Yr wythnos yma byddwn yn nodi Sul y Mamau. Cawn glywed gan fam o Gwmtwrch sydd wedi teimlo tristwch yn oystal â llawenydd ar y Sul hwn.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

15 Ebrill Bore Gwener y Grogolith

Oedfa ar y cyd eglwysi'r gymuned leol yn nghapel Salem, Ton-teg. Os oes rhywun yn fodlon cyfrannu darlleniad mynnwch air gyda Geraint Rees.

CROESO I BAWB

GORYMDAITH HEDDWCH EFAIL ISAF

Cofiwch am yr orymdaith heddwch ddydd Sadwrn yma, 26 Mawrth, i ddangos cefnogaeth y gymuned i bobl Wcráin. Bydd y daith yn dechrau tu allan i neuadd y pentref am 2 o'r gloch y pnavn a cheir paned a chacen i ddilyn yng Nghanolfan Capel y Tabernacl.

NEWYDDION DA

Mae'n braf adrodd bod Eirian Rowlands a Ken Jones ill dau wedi dychwelyd adref ac yn gwella'n dda yn dilyn eu llawdriniaethau'n ddiweddar. Edrychwn ymlaen at eu croesawu'n ôl yn y Tabernacl yn fuan.

Noson Ysbrydoledig

Un o'r ddau siaradwr a wahoddwyd i annerch Cwrdd Chwarter rhithiol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg nos Fercher diwethaf oedd Eleri Mai. Testun y cyfarfod oedd 'Profiadau Arloesi Dwy Eglwys' a chawsom gyflwyniad llawn afiaith ganddi wrth iddi grynhoi yr holl weithgareddau amrywiol mae wedi eu trefnu i'r bobl ifanc ac yn y gymuned leol. Roedd hi'n anodd credu mai cwta chwe mis sydd wedi pasio ers iddi ddechrau yn ei swydd. Talodd ddiolch i nifer o aelodau a chyfeillion y Tabernacl am eu cyngor a'u chymorth iddi. Does ryfedd i'r Dr Hefin Jones, Cadeirydd y Cyfundeb, ddisgrifio'r noson fel un ysbrydoledig a bendithiol ac mai 'da oedd bod yno'.

Sesiwn Flasu Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar

yng nghwmni'r Parchedig Ddr R. Alun Evans,
Sian Meinir, a Delwyn Sion.
Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

2.00 Pnavn Sadwrn 2 Ebrill

Cyfle i eglwysi'r ardal gael treulio awr o gymdeithasu a chanu dros banded a chacen, gyda gwahoddiad arbennig i rai sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Bydd yn bnavn llawen, llawn hwyll!

Dewch i gefnogi

Trefnir gan Undeb yr Annibynwyr,
ac mae gwahoddiad cynnes i bawb

Rhagor o wybodaeth:

Emlyn Davies 02920 891344 / 07900 491247
emlyn.pentyrch@btinternet.com

(Byddwn yn ffilmio rhan o'r cyfarfod ar gyfer
fideo Eglwysi Dementia-gyfeillgar)

Y Cam Nesaf

Yn natganiad hir-ddisgwylidig Llywodraeth Cymru fore Gwener, cyhoeddwyd na fydd raid i bobl yng Nghymru wisgo gorchudd wyneb **yn ôl y gyfraith** o ddydd Llun 28 Mawrth ymlaen, a hynny mewn siopau, bysiau a threnau. Gan nad yw'r pandemig wedi diflannu'n llwyr o'r tir, yn wir mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos twf yn yr achosion yr wythnos hon, fe wneir eithriad o ysbytai a chartrefi gofal.

Mae'n siŵr bod ambell un ohonoch yn dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf gyda'r arolwg a luniwyd gennym yn holi am eich barn o ran trefniadau'r Tabernacl o ddechrau Ebrill ymlaen. Ond cyn sôn am hynny fe garwn ddiolch i'r nifer lled dda ohonoch sydd eisoes wedi bwrw eich pleidlais ac atgoffa pawb arall bod modd o hyd i chi ddatgan eich dewis cyntaf **hyd at hanner nos ddydd Llun 28 Mawrth**. Heb ddatgelu gormod, gallaf nodi bod y ras yn dynn iawn rhwng dau o'r dewisiadau, ac felly os oes gennych deimladau cryf o blaid un o'r dewisiadau cofiwch fanteisio ar y cyfle i ddweud eich dweud.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Fel yr esboniwyd wrth gyflwyno'r arolwg yn y *Ddolen* yr wythnos ddiwethaf, codi'r **orfodaeth gyfreithiol** ar wisgo gorchudd wyneb wna datganiad y Llywodraeth, tra mai cyfrifoldeb pob eglwys unigol fydd dewis pa fesurau diogelwch i'w hepgor wedi i'r rheolau gael eu llacio a pha rai dylid glynu atynt am y tro. Bwrdd y Cyfarwyddwyr fydd yn penderfynu ar y ffordd ymlaen i'r Tabernacl ar eich rhan pan fyddant yn cwrdd nos Fawrth 5 Ebrill. Y gobaith yw y bydd canlyniadau'r arolwg o gymorth wrth ddewis y ffordd ymlaen o Sul cyntaf Ebrill.



CAIS AM GACENNAU

Bydd paned a chacen i bawb yn ystod Sesiwn Flasu Cynllun Eglwys Dementia-gyfeillgar Undeb yr Annibynwyr yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth bnawn Sadwrn, Ebrill 2.

Y Tabernacl Efail Isaf a Bethlehem Gwaelod-y-garth sy'n cynnal y sesiwn, gyda Bethlehem yn trefnu'r baned, a'r Tabernacl yn cyfrannu at y cacennau.

Os ydych chi'n fodlon pobi cacen, plis cysylltwch â fi erbyn Mawrth 26. Os na fyddwch yn medru dod i'r Sesiwn, mae croeso i chi ddod â'ch cacen i'n tŷ ni ymlaen llaw.

DIOLCH YN FAWR

Ann Dwynwen
02920 891344 ann.pentyrch@btinternet.com
87 Maes y Sarn, Pentyrch

Twmiaid Bach
3.30-5.00

Twmiaid a Twmiaid Bach

20/03/22 - Celf a Chrefft
Eisteddfod yr Urdd

27/03/22 - Gweithgaredd
Sul Y Mamau

03/04/22 - Bingo Pasg
(Pawb 4.00-5.30)

Twmiaid
5.00-6.30

Coffi a Sgwrs
Canolfan y Tabernacl
Bob bore Mawrth
10.30-12.00

Efail Isaf

Croeso i bawb

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk

THE JUSTICE CONFERENCE
AR DAITH

Noson o wrando a dysgu gan leisiau lleol a byd-eang am alwad yr Ysgrhythur i gyfiawnder.

30 MAWRTH | CAERDYDD
CITY CHURCH CAERDYDD

7.30-9yh, 39-47 Ffordd Ddwyreiniol y Bontfaen, Caerdydd, CF11 9AD

Archebwch eich tocyn RHAD AC AM DDIM:
thejusticeconference.co.uk/on-tour

Dien ofal
tearfund

Mewn partneriaeth gydag

IJM JUST LOVE